COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION CYFARFOD ARBENNIG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 5ed MEDI 2001 YN NHY CARADOG, 1-6 ST. ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE

Yn bresennol:

Comisiwn	**Ysgrifenyddiaeth**
Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)	Mr E Lewis (Ysgrifennydd)
Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)	Mr S Halsall
Mrs S Smith (Aelod)	

1. Cyfarfod y Comisiwn â'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol.

1.1 Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyfarfod a gynhaliwyd yn gynharach y bore hwnnw gyda Mrs. Hart pan gyflwynwyd a derbyniwyd yr Adroddiad Blynyddol Drafft. Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynghylch y materion cyffredinol a godwyd a chredwyd y bu'r cyfarfod yn ddefnyddiol.

1.2 Roedd angen **gweithredu** mewn perthynas â'r Siroedd a Gadwyd a gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth gyfnewid papur ar y materion ag Adran LGM.

2. Cyfarfod â'r Comisiwn Trefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol i Gymru

2.1 Cafodd y Comisiwn wahoddiad gan y Comisiwn Trefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol i Gymru i fynychu sesiwn cymryd tystiolaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd ar 22 Hydref 2001. **Cadarnhawyd** y byddai Mr. Lloyd FitzHugh ar gael i gyflwyno tystiolaeth gan y Comisiwn. Ar ôl peth trafod, **cytunwyd** y byddai copi o'r papur Briffio a luniwyd ar gyfer cyfarfod cyntaf y Comisiwn hwnnw a drafft yn cael eu paratoi i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Llangollen.

3.1 **Cytunwyd** y byddai crynodeb gweithredol yn cael ei gynhyrchu a'i gynnwys ar dudalen gyntaf y cynigion Drafft yn cwmpasu'r prif gasgliadau ac yn cyfeirio at y materion dichonoldeb ariannol y cafodd y Comisiwn gyfarwyddiadau i gyflwyno adroddiad arnynt.